**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LN/PO/282/2025

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

12 Mehefin 2025

Annwyl Buffy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mai ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mewn perthynas â'r Bil Lles Plant ac Ysgolion.

Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd gennych, credaf nad oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 24 Mawrth yn cynnwys rhai o'r darpariaethau mewn perthynas â mesurau plant nad ydynt yn yr ysgol sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Fel yr esboniais i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad pan roddais dystiolaeth ar 12 Mai, camgymeriad oedd hyn. Rwy'n ymddiheuro bod y darpariaethau hyn wedi'u hepgor. Y cymalau dan sylw yn eich llythyr yw Cymal 35 ac Atodlen 2, Cymal 63 a Chymal 66.

Er mwyn cywiro hyn, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol o dan Reol Sefydlog 29 sy'n ymdrin â'r darpariaethau hyn.

Mae'r cwestiynau penodol a godwyd yn eich llythyr dyddiedig 7 Mai yn cael eu trafod isod:

1. Fel y nodwyd yn Nodyn Esboniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae angen cydsyniad Senedd Cymru ynghylch Cymal 35 ac Atodlen 2 o'r Bil sydd wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â diwygiadau canlyniadol.

2. Mae Cymal 63 o'r Bil (fel y mae wedi ei gyhoeddi ar hyn o bryd) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau canlyniadol, gan gynnwys pŵer Harri VIII i ddiwygio, diddymu, dirymu deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddf Senedd Cymru neu Fesur Senedd Cymru. Fe nodwyd gennych nad oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyflwynwyd ar 24 Mawrth yn cyfeirio at y ffaith bod y ddarpariaeth hon yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Nid oes unrhyw bwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru ac mae'r mater hwn wedi'i godi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor o ran y pŵer hwn ar ôl trafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Mae Cymal 66 cyfredol y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gychwyn Cymalau 30-35 ac Atodlen 2. Mae'r cymalau hyn yn ymwneud â'r darpariaethau am blant nad ydynt yn yr ysgol, a'r rheoliadau a fydd yn ofynnol er mwyn cychwyn y darpariaethau hynny. Mae Cymal 66 yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

Unwaith eto, rwy'n ymddiheuro am yr amryfusedd mewn perthynas â'r darpariaethau hyn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i'r Pwyllgor barhau i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Glerc y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education